Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |



| | |
|---|---|
| **Dyddiad / Date:** | 20.12.2024 |
| **Pwnc / Subject:** | **Cwricwlwm i Gymru: adrannau wedi'u diweddaru o Canllawiau'r Fframwaith** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

At ei gilydd, mae Estyn yn credu bod llawer o'r diwygiadau arfaethedig yn fuddiol a byddant yn darparu eglurder gwell i'r canllawiau cyffredinol. Mewn ychydig o achosion, rydym yn credu y gellid gwneud y canllawiau'n gliriach, neu gallent fod yn fwy buddiol, gydag ychydig o newidiadau. Bron ym mhob un o'r achosion hyn, rydym wedi rhoi awgrymiadau ynglŷn â sut gellid addasu'r diffiniadau hyn.

Byddem yn tynnu'ch sylw yn benodol at y rhan bwysig hon o'r canllawiau i gael eglurhad.

**Adran 3.4. Themâu trawsbynciol ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm (tudalen 5)**

Mae'r testun o dan y pennawd 'Addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh): canllawiau statudol' yn nodi'r canlynol:

- Mae newid i Addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac yn orfodol ar gyfer pob dysgwr rhwng 6 ac 16 oed.

Mae canllawiau statudol yn cyfeirio at oedrannau 3 i 16. A allai Llywodraeth Cymru wirio bod yr adran hon yn gywir?

Byddai staff Estyn yn hapus i gyfarfod i drafod manylion am yr ymateb hwn.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau arfaethedig hyn i ganllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn ddefnyddiol?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno ychydig | ✓ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ | Anghytuno ychydig | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |

Nodwch yma ba wybodaeth neu gymorth ychwanegol i ganllawiau'r Fframwaith fyddai'n fuddiol.

I sicrhau bod y diweddariadau i'r canllawiau yn glir, rydym wedi nodi'r meysydd canlynol a fyddai'n elwa ar ychydig o ddiwygiadau.

**1. Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru (tudalen 2)**

Mae newid arfaethedig i 'Cynnydd ac asesu wrth wraidd cynllunio'r cwricwlwm' trwy ychwanegu:

- Ar gyfer darllen a rhifedd, mae'r asesiadau personoledig wedi'u cynllunio i <u>hwyluso mewnwelediad</u> i gynnydd a meysydd i'w datblygu dysgwyr unigol rhwng Blynyddoedd 2 a 9.

Byddai hyn yn gliriach pe bai'n dweud:

- Ar gyfer darllen a rhifedd, mae'r asesiadau personoledig wedi'u cynllunio i gynorthwyo ysgolion i ddeall cynnydd a meysydd i'w datblygu dysgwyr unigol rhwng Blynyddoedd 2 a 9.

**3.3 Egwyddorion ar gyfer cynllunio'ch cwricwlwm (tudalen 4)**

Mae'r newid arfaethedig i'r gofyniad statudol o 'mae'n rhaid i gwricwlwm ysgol gwmpasu'r holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig o 3 i 16' i 'mae'n rhaid i gwricwlwm ysgol sicrhau dysgu yn yr holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig o 3 i 14' yn datgan:

- O 14 oed ymlaen, mae angen iddynt gwmpasu rhai o'r datganiadau yn unig o'r hyn sy'n bwysig ym mhob Maes.

Mae hyn yn newid arwyddocaol i'r canllawiau presennol, ac mae'n bwysig sicrhau bod pob disgybl hyd at 16 oed yn cael cwricwlwm eang a chytbwys. Felly, byddai ysgolion yn elwa ar gael mwy o fanylion ac esboniad. Rydym yn awgrymu:

- O 14 oed, bydd disgyblion yn dewis ystod fwy cyfyng o bynciau i'w hastudio'n fanwl. Rhaid i ysgolion sicrhau o hyd eu bod yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys hyd at 16 oed, a fydd yn cynnwys cyfleoedd pwrpasol i ymgysylltu â rhai o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad nad ydynt wedi dewis eu hastudio'n fanwl.

Rydym hefyd yn credu bod yr adran hon yn gyfle arall i ailadrodd y gofyniad i'r holl ddysgwyr barhau i astudio'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad tan ddiwedd Blwyddyn 9.

**3.6 Galluogi dysgu (tudalen 12)**

O dan yr adran 'Archwilio', mae'r diffiniad diweddaraf yn dileu'r cyfeiriad at y ffaith y dylai archwilio ddigwydd 'y tu mewn a'r tu allan'. Rydym yn argymell y dylid cadw'r pwynt pwysig hwn i gefnogi dealltwriaeth ymarferwyr. Gellid ei ychwanegu at y frawddeg sy'n dechrau:

- 'Dylai dysgwyr gael y cyfle i archwilio ac ymchwilio, y tu mewn a'r tu allan…

**3.7 Gweithredu ac ystyriaethau ymarferol (tudalen 13)**

Yn yr adran 'Rhannu arferion gorau', lle mae'r canllawiau'n nodi 'Dylai ysgolion ac ymarferwyr gydweithredu i feithrin dealltwriaeth o'r hyn sy'n sail i ddulliau ac arferion llwyddiannus', rydym yn awgrymu y dylid ychwanegu dolenni at ganllawiau sy'n cefnogi gweithio rhwng ysgolion a dolenni sy'n nodi enghreifftiau o arferion effeithiol. Gallai hyn gynnwys adnoddau buddiol ar wefan Estyn, fel adolygiadau thematig.

**3.8. Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) (tudalen 14)**

Byddem yn eich annog i beidio â dileu'r adran yn y canllawiau presennol sy'n nodi bod:

- Gallu gweithio gyda gwasanaethau ac asiantaethau partner, fel iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau troseddau ieuenctid, fel gwasanaethau ataliol, therapiwtig ac ieuenctid, helpu mynd i'r afael ag anghenion unigol dysgwr.

Mae'r rhain yn ddolenni hanfodol sy'n helpu cefnogi'r dysgwyr mwyaf bregus hynny, a dylid eu hannog a'u cefnogi lle bo modd.

**4.1 Beth sy'n newid mewn asesu? (tudalen 16)**

Rydym yn cytuno'n gryf â'r canllawiau na ddylai ysgolion fod yn llunio barnau 'gweddu orau'. Fodd bynnag, dylai'r canllawiau nodi'n glir na ddylid gwneud y rhain yn gysylltiadau â'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a/neu'r Camau Cynnydd. Gellid cryfhau'r canllawiau i:

- Ni fydd barnau'n cael eu llunio ar sail cyrhaeddiad cyffredinol dysgwr ar adeg benodol mewn amser, trwy ddyrannu canlyniad neu lefel ar sail 'gweddu orau', er enghraifft yn gysylltiedig â Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig neu Gamau Cynnydd.

O dan y pennawd 'pam yr ydym yn gwneud hyn', mae'r datganiad arfaethedig 'Mae asesu yng Nghwricwlwm i Gymru yn ymwneud ag asesu cynnydd dysgwyr yn barhaus – nid llunio barn untro ar adegau penodol mewn amser' yn gywir. Fodd bynnag, dylai'r datganiad hwn gynnwys neges glir ynglŷn â beth yw 'diben' asesu, i gynorthwyo ysgolion i ddefnyddio asesu'n effeithiol. Byddai'n fwy buddiol pe bai'n dweud:

- Mae asesu yng Nghwricwlwm i Gymru yn ymwneud ag asesu cynnydd dysgwyr yn barhaus a defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi dysgu ac addysgu – peidio â llunio barn untro ar adegau penodol mewn amser.

**4.2 Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu (tudalen 17 ac 18)**

Camau - Asesu ar gyfer y Dyfodol. Wrth ddarparu canllawiau ar ddefnyddio adnodd Camau, mae angen ei gwneud yn glir bod y deunyddiau hyn yn cyflwyno un ffordd benodol o edrych ar gynnydd ac asesu yn y cwricwlwm, ond bod ffyrdd eraill o ddatblygu'r cwricwlwm yn llwyddiannus.

**Atodiad 1 (tudalen 18)**

Wrth ddarparu canllawiau ar ymglymiad ysgolion mewn sgyrsiau rhwydweithiau lleol a rhwydwaith cenedlaethol, mae angen canllawiau clir y dylai hyn ddylanwadu ar arfer yn yr ysgol neu'r lleoliad ac nid trafodaethau yn unig. Rydym yn awgrymu ychwanegu hyn at y datganiad hwn:

- A yw eich ysgol neu'ch lleoliad yn cymryd rhan mewn sgyrsiau perthnasol rhwydweithiau cenedlaethol? Sut gall dysgu a enillwyd trwy'r sgyrsiau hyn fwydo'n ôl i drafodaethau ac arfer yn yr ysgol neu'r lleoliad?

**4.4 Canllawiau ar gyfer pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd (tudalen 20)**

Mae'r newidiadau arfaethedig yn nodi bod y canllawiau 'hefyd yn rhoi gwybodaeth am drefniadau gwirfoddol i gefnogi a gwella'r gwaith o gynllunio ar gyfer y cyfnod pontio – gan gydnabod bod gan lawer o ysgolion cynradd gysylltiadau â nifer o ysgolion uwchradd sydd y tu allan i'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cynlluniau pontio'. Er ein bod yn deall y bydd rhaid i ysgolion weithio gydag ysgolion eraill y tu allan i'r fframwaith cyfreithiol, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi i wneud hyn mor effeithiol ag y bo modd i gefnogi cynnydd dysgwyr a'u lles. Rydym yn awgrymu y dylid addasu'r gair 'gwirfoddol' i annog a helpu arweinwyr i ddeall pwysigrwydd trefniadau pontio cryf. Rydym yn awgrymu:

- Mae'r canllawiau hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth am drefniadau pwysig, ond llai ffurfiol i gefnogi a gwella cynllunio pontio – gan gydnabod bod gan lawer o ysgolion cynradd gysylltiadau â nifer o ysgolion uwchradd sy'n disgyn y tu allan i'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cynlluniau pontio.

**Diffiniad o ysgol gynradd sy'n bwydo (tudalen 21)**

Mae'r canllawiau'n nodi:

- 'dylid cyfyngu'r gofyniad i lunio cynlluniau pontio i achosion pan fo perthynas sefydledig a pharhaus rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd benodol sy'n seiliedig ar y ffaith bod y

rhan fwyaf o garfan Blwyddyn 6 o'r ysgol gynradd yn pontio i'r ysgol uwchradd benodol honno.'

Er ein bod yn cydnabod nad oes gofyniad cyfreithiol i ysgolion greu cynlluniau pontio mewn amgylchiadau eraill, os yw ysgolion eisiau creu cynlluniau lle mae lleiafrif yn unig o'r garfan yn trosglwyddo, ni fyddem yn dymuno peidio â chefnogi hyn oherwydd gallai gynnig manteision cadarnhaol ar gyfer cynnydd disgyblion a'u lles. Felly, byddem yn awgrymu diwygio'r term 'dylid cyfyngu i achosion' i 'mae'n statudol'. Mae hyn yn dangos yn glir ble mae'r cynlluniau yn ofynnol yn gyfreithiol, ond heb beidio â chefnogi arferion eraill, sydd o bosibl yn fuddiol.

**5. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Y datganiad ar dudalennau 21-22

- Rydym wedi cynnig newidiadau i egluro'r geiriad ynglŷn â defnyddio lluniau a chyd-destun i helpu dysgwyr i ddeall a gwneud synnwyr o'r hyn y maent yn ei ddarllen.

A'r ddau ddatganiad o dan Gamau Cynnydd 1 a 2 (tudalen 22)

- Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i'm helpu i ddeall ystyr yr hyn rwy'n ei ddarllen.
- Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i'm helpu i ddeall ystyr geiriau.

Mae pob un ohonynt yn cyfuno i awgrymu y dylid defnyddio lluniau a chyd-destun i gynorthwyo ystyr a dealltwriaeth *yn unig.* Nid yw'r newidiadau arfaethedig i'r disgrifiadau o ddysgu yn ystyried achosion pan mae angen i ddysgwyr gymhwyso gwybodaeth, heblaw gwybodaeth ffonolegol, i ddarllen geiriau'n gywir. Enghraifft o hyn yw *heteronymau*: geiriau sy'n cael eu sillafu'r un fath ond ag iddynt ynganiadau gwahanol, fel 'read', 'live', 'bow', 'lead', ac ati. Gall y geiriau hyn ond cael eu *darllen* (ynganu) yn gywir, pan gânt eu llywio gan gyd-destun y testun. Nid yw dadgodio trwy ddefnyddio gwybodaeth ffonolegol ar ei ben ei hun yn ddigon yn yr achosion hyn. Byddem yn awgrymu y dylid diwygio'r brawddegau hyn i ddweud:

- Rydym wedi cynnig newidiadau i egluro'r geiriad ynglŷn â defnyddio lluniau a chyd-destun i helpu dysgwyr i ddarllen.
- PS1: Pan fo'n briodol, rwy'n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i'm helpu i ddarllen a deall yr hyn rwy'n ei ddarllen.
- PS2: Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun, fy mhrofiadau fy hun a lluniau i'm helpu i ddarllen a deall yr hyn rwy'n ei ddarllen, a gwirio bod y testun yn gwneud synnwyr.

**5.1 Disgrifiadau dysgu (tudalen 22)**

Er ein bod yn cytuno bod hyn yn bwysig, mae angen egluro'r disgrifiad yng Ngham Cynnydd 1 ymhellach i nodi beth mae dysgwyr yn cyfuno'r rhain i'w wneud.

- Rwy'n dechrau datblygu fy ngwybodaeth am gyfatebiaeth graffem-ffonem, ac i gyfuno'r wybodaeth honno.

Byddem yn awgrymu y gellid cryfhau hyn i:

- Rwy'n dechrau datblygu fy ngwybodaeth am gyfatebiaeth graffem-ffonem, ac i gyfuno'r wybodaeth honno i'm helpu i ddarllen.

**Adran 6. Rhestr o ddiffiniadau Cwricwlwm i Gymru (tudalen 24 ymlaen)**

Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i 'hofran dros' ddiffiniadau yn y canllawiau. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, gellid cryfhau'r rhain ymhellach neu'u gwneud yn gliriach.

**Tudalen 27**

- Geiriau cytras (cognates). Mae'r diffiniad diwygiedig yn rhoi enghreifftiau o beth yw gair cytras ond nid yw'n diffinio beth yw geiriau cytras, mewn gwirionedd. Mae'r diffiniad gwreiddiol yn ei ddiffinio. Dylid cadw hwn.
- Cymudol a chymudedd (commutative and commutativity). Mae'r gair 'cyfraith' wedi cael ei ddileu o'r diffiniad o gymudol ond wedi cael ei gadw yn y diffiniad o gymudedd. Dylid cadw'r gair 'cyfraith' yn y naill a'r llall gan mai dyma un o gyfreithiau mathemateg.

**Tudalen 28**

- Cyfrifiannau / cyfrifiannol. Mae'r termau cyfrifiannau / cyfrifiannol yn cyfeirio at 'brosesu data gan ddefnyddio set o reolau neu algorithmau diffiniedig'. Byddai defnyddio hyn fel esboniad yn gliriach na 'gwneud un cyfrifiad neu fwy' fel yn y diffiniad a awgrymwyd.
- Cydsyniad (consent). Mae'r diffiniad newydd arfaethedig yn rhy eang ac yn rhoi safbwyntiau ychwanegol sy'n ychwanegu haenau o gymhlethdod. Mae'r diffiniad arfaethedig hefyd yn defnyddio'r gair 'cydsyniad' i ddiffinio 'cydsyniad', ac nid yw'n eglur. Rydym yn awgrymu'r diffiniad hwn sy'n symlach ac yn llawer cliriach.
  - 'Pan fydd un unigolyn yn rhoi caniatâd i unigolyn arall wneud rhywbeth sy'n effeithio arno. Gellir ond rhoi'r caniatâd hwn os oes gan yr unigolyn y rhyddid a'r gallu i'w roi.'

**Tudalen 29**

- Ciwiau. Byddem yn cynghori yn erbyn ychwanegu 'mewn cyd-destunau llafar' at y diffiniad diwygiedig. Gellir cael 'ciwiau ieithyddol' sy'n pwyntio at yr ystyr neu'r berthynas rhwng geiriau.
- CWRE. Byddem yn awgrymu cyfieithiad Cymraeg sy'n wahanol i'r un a awgrymwyd: 'Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith'.

**Tudalen 30**

- Ôl-troed digidol. Mae defnyddio'r term 'dysgwr' yn y diffiniad yn awgrymu mai dysgwyr yn unig sy'n gadael olion troed digidol. Byddai'r diffiniad hwn yn gliriach pe bai'n ei esbonio fel 'Cofnod o weithgareddau ar-lein defnyddiwr', neu derm tebyg i 'defnyddiwr' a oedd yn cwmpasu mwy na 'dysgwyr' yn unig.
- Terminoleg sy'n benodol i ddisgyblaeth a geirfa sy'n benodol i ddisgyblaeth. Mae'r termau hyn yn berthnasol i'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad ac nid y Celfyddydau Mynegiannol yn unig. Byddai'n well eu diffinio fel 'Geirfa arbenigol neu benodol neu dermau technegol sy'n cael eu defnyddio o fewn maes astudio, proffesiwn, neu faes arbenigedd penodol'.

**Tudalen 34**

- Cyfatebiaeth graffem-ffonem. Mae'r diffiniad presennol ac arfaethedig yn anghywir a byddai'r canlynol yn fwy cywir: 'Ffonemau yw'r unedau sain lleiaf'. Byddai'n well dileu'r frawddeg derfynol, 'Wrth i ddysgwyr ddysgu darllen…' gan ei bod yn mynd y tu hwnt i'r diffiniad.

**Tudalen 38**

- LHDTC+. Rydym yn cefnogi'r mwyafrif o'r newid i'r diffiniad hwn, ond byddem yn ychwanegu 'a phobl anneuaidd' at y frawddeg olaf. Mae hyn oherwydd bod hwn yn grŵp arwyddocaol sy'n fwy na'r naill neu'r llall o'r ddwy enghraifft arall a roddwyd. Byddai'n dweud:
    - Defnyddir y + (plws) yn yr acronym fel llaw fer i gynnwys a chydnabod termau amrywiol eraill y mae pobl yn uniaethu â nhw ac yn eu defnyddio i ddisgrifio'u hunaniaethau a'u cyfeiriadedd, yn cynnwys pobl ryngryw, arywiol ac aramantaidd a phobl anneuaidd.
- Rydym hefyd yn cwestiynu ychwanegu'r gair 'pobl' ar ôl y geiriau trawsryweddol / traws yn unig. Byddem yn awgrymu ei ddileu yn gyfan gwbl.

**Tudalen 42**

- Ffoneg. Byddai'n well dileu'r datganiad, 'Yn benodol, mae hyn yn cynnwys datblygu'r defnydd o graffemau-ffonemau a chyfuno'r rhain i ddadgodio geiriau.' gan ei fod yn awgrymu ffoneg synthetig yn unig, neu ymagwedd ffafriedig at addysgu.

**Tudalen 47**

- Rhyw. Nid yw'r diffiniad newydd arfaethedig hwn yn diffinio'r term yn glir, ond mae'n ceisio'i ddiffinio trwy esbonio'r hyn nad ydyw, neu'r hyn mae'n wahanol iddo. Byddem yn awgrymu'r diffiniad cliriach a mwy buddiol hwn:
    - Mae rhyw wedi'i seilio ar nodweddion biolegol fel cromosomau, proffiliau hormon ac anatomi a gweithrediadau atgenhedlol (er enghraifft, organau cenhedlu). Fel arfer, caiff rhyw unigolyn ei gofrestru pan gaiff ei eni, fel benyw, gwryw neu ryngryw.

**Cwestiwn 2 –** Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol yr adran hon o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar y Gymraeg? Mae gennym ni ddiddordeb yn benodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Sylwadau ategol**

Mae'n ymddangos bod y diweddariadau'n parhau i bwysleisio'n gadarnhaol bwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Cymru fel rhannau annatod o brofiadau addysgol difyr. Mae hyn yn cyd-fynd â'r nodau cenedlaethol ehangach i annog dwyieithrwydd a meithrin cysylltiad â hunaniaeth Gymreig. Er enghraifft, mae oedolion sy'n galluogi dysgu yn cael eu hannog i hyrwyddo hunaniaeth unigryw'r Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Cymru, ac annog dysgwyr i ddechrau creu cysylltiadau rhwng ieithoedd, yn cynnwys y Saesneg a'r Gymraeg.

Mae cynnwys cyfieithiadau i'r Gymraeg o dermau fel 'pobl sy'n gyfrifol am ddyletswydd', nad oeddent yn cael eu cynnwys o'r blaen, yn fantais gadarnhaol.

**Cwestiwn 3 –** Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid y diwygiadau arfaethedig hyn i Fframwaith Cwricwlwm i Gymru er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym wedi ychwanegu’r holl awgrymiadau ar gyfer gwella at ein hymatebion uchod. |

**Cwestiwn 4 –** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i’w nodi:

| |
|---|
| Yn ein gwaith thematig diweddar, dywedodd llawer o arweinwyr ysgolion wrthym ei bod yn anodd nodi pa newidiadau penodol a wneir pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud diwygiadau, gan fod canllawiau’r cwricwlwm ar-lein. Oherwydd bod yr ymgynghoriad hwn yn gwneud addasiadau sylweddol i’r canllawiau, bydd yn bwysig helpu ysgolion i ddeall pa newidiadau a wnaed er mwyn iddynt allu ymateb yn unol â hynny. Byddai’n fuddiol pe gallai Llywodraeth Cymru ddyfeisio ffordd i helpu ysgolion i nodi’r diwygiadau pan gânt eu cyhoeddi, er enghraifft trwy wneud y diweddariadau i’r canllawiau mewn ffont lliw gwahanol am gyfnod amser. |

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych i’ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐